

# The Angling Code

## Angling Code

The Welsh countryside is an amazing natural resource and fishing its rivers, canals, lakes and reservoirs is an ideal way of getting closer to it. This code contains information that will be well known to a seasoned angler but will help newcomers get the most out of angling in Wales, whilst also safeguarding the future of the sport.

Take special care of the natural environment while you are fishing:

- **Respect other people**
- **Protect the natural environment**
- **Enjoy the outdoors and stay safe**

### Respect other people

- The Countryside Code gives important advice on how to use the countryside responsibly. Visit [www.countrysidecodewales.org.uk](http://www.countrysidecodewales.org.uk) to read the code. Be aware of it before you go out and follow it at all times.
- Don't trespass. There are areas with designated public access, including rights of way, access land and some waters with navigation rights. However, outside these areas, you should not assume that you have access onto any land or water without the owner's permission. Find out about places with public and permissive rights of access and egress at Outdoor Wales OnLine in the interactive map section of the Natural Resources Wales website: [www.naturalresourceswales.gov.uk](http://www.naturalresourceswales.gov.uk)
- Every angler fishing in England and Wales requires a rod licence to fish and permission from the owner of the stretch of river, lake, reservoir or canal. It is very important that you respect the rules of the fishery owners and any statutory byelaws in force in the area. More information about licensing can be found on the Natural Resources Wales website: [www.naturalresourceswales.gov.uk](http://www.naturalresourceswales.gov.uk)
- Where applicable, ensure that you have purchased a day ticket to use the fishery. You need a day or season permit to fish any inland water.
- Respect other anglers, make yourself known to anyone fishing and find a spot that is an appropriate distance away from them.
- Respect the rights of other water users, be courteous to them and indicate to them where you are fishing so that they can pass by without disturbing you.

### Protect the natural environment

- Fishing rules and regulations are intended to help fish stocks replenish for future generations and ensure that the rivers remain healthy. Make sure you are fishing within the fishing season, which is generally between March and October for game fishing or between June and March for coarse fishing. However, local restrictions and variations may apply.
- If you are visiting a venue for the first time, consult the local club or the owner of the fishery to find out about any restrictions. There may be bag or size limits on the river, ponds and restrictions on fishing methods and times.
- While fishing, the handling of fish has an important role to reduce the risk of stress and disease. Landing nets and keepnets must be of knotless mesh and in some cases of a specific size. Some fisheries also have size restrictions for keepnets. Consider carrying an unhooking mat for carp and other large fish in some places.
- Catch and release is a way of safeguarding future fish stocks and may be mandatory in some places. Help make this activity as humane as possible:
  - Use a strong line so that you can play the fish quickly in order to return it to the water as soon as possible.
  - Consider using barbless hooks to avoid unnecessary harm to fish.
  - Take great care when unhooking a fish and return it to the water as soon as possible.
- Select a fishing station that gives you control and easy access to land a fish and make sure you have the appropriate equipment, landing nets, disgorger etc.
- Bank-sides are home to a great variety of plants and animals. Minimise damage and disturbance to them, use recognised pathways or bare rock.
- Take care not to alarm birds, livestock or other animals as they may be very sensitive to disturbance; if you see animals looking agitated by your presence move away quietly.
- Be aware that ground-nesting and hole-nesting birds may be breeding on islands, banks and shingle in the spring and summer; be particularly careful not to disturb them at this time.
- Do not discard any angling litter or tackle, and be particularly careful to take home all line that is no longer needed.
- Some areas of rivers and reservoirs may be designated as sanctuary areas. Please respect these and keep away from them. Those anglers who fish in winter and spring are advised to avoid areas where fish may be spawning. Do not enter any water where this activity is taking place. It is an offence to disturb spawning fish.
- The current discovery of the presence of non-native species (alien species) in our rivers and lakes needs careful management. Do not move from water to water without disinfecting or thoroughly drying out your equipment. Take special care when using nets or felt soled waders. For more information, visit the Non-Native Species Secretariat (NNSS) pages on DEFRA's website -[www.defra.gov.uk](http://www.defra.gov.uk)

### Enjoy the outdoors and stay safe

- You are responsible for your own safety. Let someone know where you are going and when you are likely to return, and always have a way of raising an alarm if you need help.
- Access to river, lake, reservoir or canal banks can be dangerous, especially at night. Make sure you have suitable footwear and a torch.
- Water conditions can change rapidly. Check weather conditions before you leave the house and beware of getting trapped on gravel banks and islands if the river comes into spate.
- Be aware when casting, check the area for any hazards, such as power lines or people standing behind you. Take care when fishing in the wind, as it can blow the hook back in your face.
- Bacteria, viruses, and toxic algae may be present in some water. Generally, if the water looks or smells bad, don't enter. However, if you are entering suspect water:
  - Cover all cuts and abrasions with waterproof plasters.
  - Wear footwear to avoid cutting your feet.
  - Avoid swallowing water.
- Wash as soon as possible after getting out and particularly before eating any food.
- Contact your doctor if you start experiencing any symptoms and tell them where you have been.

If you see sewage entering a watercourse call Dŵr Cymru Welsh Water's hotline on 0800 085 3968 or you can also report pollution or other wildlife crime by calling 0800 80 70 60. For non-emergency issues you can contact the police on 101.



# Côd Pysgota

## Côd Pysgota

Mae cefn gwlad Cymru yn adnodd naturiol ysblennydd, ac mae pysgota mewn afonydd, camlesi, llynnoedd a chronfeydd dŵr yn ffordd ddelfrydol o ddod yn nes at natur. Yn y côd hwn ceir gwybodaeth sydd eisoes yn hysbys i'r rheini sy'n hen lawiau ar bysgota, ond bydd yn helpu'r rheini sy'n dechrau yn y maes i wneud yn fawr o bysgota yng Nghymru, gan ddiogelu dyfodol y gweithgaredd yr un pryd.

Cymerwch ofal o'r amgylchedd naturiol tra byddwch yn pysgota:

- **parchwch** bobl eraill
- **diogelwch** yr amgylchedd naturiol
- **mwynhewch** a gwnewch yn siŵr eich bod yn saff

### Parchwch bobl eraill

- Mae'r Côd Cefn Gwlad yn cynnwys cyngor pwysig ynglŷn â'r modd y dylid defnyddio cefn gwlad yn gyfrifol. Ewch i [www.countrysidecodewales.org.uk](http://www.countrysidecodewales.org.uk) i ddarllen y côd. Cofiwch ymgyswddo ag ef cyn mentro allan, a chofiwch gadw ato bob amser.
- Peidiwch â thresmasu. Mae yna ardaloedd i'w cael lle mae gan y cyhoedd hawl i fynd arnynt, yn cynnwys llwybrau cyhoeddus, tir mynediad a rhai dyfroedd sydd â hawliau mordwyo. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r ardaloedd hyn peidiwch â chymryd yn ganiataol fod gennych hawl i fynd ar unrhyw dir neu ddŵr heb ganiatâd y perchennog. Gallwch weld pa ardaloedd sydd â hawliau caniatola a hawliau cyhoeddus ar 'Crwydro Cymru ArLein', sef map rhyngweithiol ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru: [www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk).
- Rhaid i bob pysgotwr sy'n pysgota yng Nghymru a Lloegr gael trwydded gwialen a chaniatâd y sawl sy'n berchen ar y rhan honno o'r afon, y llyn, y gronfa ddŵr neu'r gamlas. Mae'n bwysig iawn ichi barchu rheolau perchnogion y bysgodfa ac unrhyw is-ddeddfau statudol sy'n digwydd bod mewn grym yn yr ardal. Gallwch gael mwy o wybodaeth am drwyddedu ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru: [www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk).
- Lle y bo'n briodol, gwnewch yn siŵr eich bod wedi prynu tocyn diwrnod i ddefnyddio'r bysgodfa. Byddwch angen trwydded diwrnod neu drwydded tymor i bysgota mewn dŵr mewndirol.
- Parchwch bysgotwyr eraill, gwnewch eich hun yn hysbys i bwy bynnag sy'n pysgota, a chwiliwch am le addas sy'n ddigon pell oddi wrthynt.
- Parchwch hawliau'r bobl eraill sy'n defnyddio'r dŵr, byddwch yn gwrtais gyda nhw, a rhowch wybod iddynt ble rydych yn pysgota fel y gallant fynd heibio heb darfu arnoch.

### Diogelwch yr amgylchedd naturiol

- Pwrpas rheolau a rheoliadau pysgota yw helpu i ailgyflenwi stociau pysgod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a sicrhau y bydd yr afon yn aros yn iach. Gwnewch yn siŵr eich bod yn pysgota o fewn y tymor pysgota – fel arfer rhwng mis Mawrth a mis Hydref ar gyfer pysgota pysgod hela, neu rhwng mis Mehefin a mis Mawrth ar gyfer pysgota bras. Ond efallai y bydd amrywiadau neu gyfyngiadau lleol mewn grym.
- Os ydych yn ymweld â'r lle am y tro cyntaf, cysylltwch â'r clwb lleol neu berchennog y bysgodfa i weld a oes cyfyngiadau mewn grym. Efallai y bydd cyfyngiadau'n ymwneud â nifer y pysgod y gellir eu pysgota, neu eu maint, mewn grym ar yr afon neu'r pwl, ynghyd â chyfyngiadau ar y dulliau pysgota a'r adegau.
- Wrth bysgota, mae'r ffordd y caiff y pysgod eu trin yn bwysig o ran lleihau straen i'r pysgod neu leihau'r posibilitrwydd o ledaenu clefyd. Ni ddylai rhwydi glanio na rhwydi cadw fod wedi'u gwneud o rwyllau clymog, ac mewn ambell achos rhaid iddynt fod o faint arbennig. Mae ambell bysgodfa'n gosod cyfyngiadau ar faint rhwydi cadw. Ystyriwch gario mat dadfachu ar gyfer carp a physgod mawr eraill mewn rhai mannau.
- Mae dal a gollwng yn ffordd o ddiogelu stociau pysgod ar gyfer y dyfodol, ac efallai fod yr arfer yn orfodol mewn rhai mannau. Ceisiwch sicrhau bod y broses mor ddi-boen â phosibl i'r pysgod:
  - Defnyddiwch lein gref fel y gallwch ddal y pysgod yn gyflym er mwyn ei ddychwelyd i'r dŵr cyn gynted â phosibl.
  - Ystyriwch ddefnyddio bachau didagell er mwyn osgoi niweidio'r pysgod yn y ddiangen.
- Byddwch yn ofalus dros ben wrth dynnu'r bachyn, a rhowch y pysgod yn ôl yn y dŵr cyn gynted â phosibl.
- Dewiswch orsaf bysgota sy'n rhoi'r rheolaeth yn eich dwylo chi a lle gallwch lanio pysgod yn rhwydd, a gwnewch yn siŵr fod yr offer, y rhwydi glanio a'r teclynnau dadfachu priodol ac ati gennych.
- Mae'r glannau'n gartref i amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid. Defnyddiwch y llwybrau cydnabyddedig neu cerddwch ar greigiau noeth er mwyn niweidio cyn lleied â phosibl arnynt.
- Peidiwch â dychryn adar, da byw nac anifeiliaid eraill – efallai y byddant yn dychryn yn hawdd. Os bydd eich presenoldeb yn cynhyrfu'r anifeiliaid, symudwch oddi wrthynt yn dawel.
- Cofiwch y gall adar nythu ar ynysoedd, glannau a graean yn ystod y gwanwyn a'r haf. Byddwch yn ofalus iawn – peidiwch â tharfu arnynt yn ystod y cyfnod hwn.
- Peidiwch â gollwng sbwriel neu offer pysgota, a chofiwch fynd â'ch lein pysgota adref gyda chi.
- Efallai fod rhannau o afonydd a chronfeydd dŵr wedi'u dynodi'n ardaloedd lloches. Parchwch y rhain a chadwch yn ddigon pell oddi wrthynt. Rydym yn cynghori pysgotwyr sy'n pysgota yn ystod y gaeaf a'r gwanwyn i gadw'n glir o safleoedd silio. Os bydd y pysgod yn silio, peidiwch â mynd i'r dŵr yn y fan honno. Mae'n drosedd tarfu ar bysgod sy'n silio.
- Mae angen rheoli'n ofalus y rhywogaethau estron sydd wedi'u darganfod yn ein hafonydd a'n llynnoedd. Peidiwch â symud o ddŵr i ddŵr heb ddiheintio neu sychu eich offer yn drylwyr. Byddwch yn ofalus dros ben wrth ddefnyddio rhwydi neu esgidiau pysgota â gwadnau ffelt. I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar dudalennau'r Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron ar wefan DEFRA – [www.defra.gov.uk](http://www.defra.gov.uk).

### Mwynhewch yr awyr agored a gwnewch yn siŵr eich bod yn saff

- Chi sy'n gyfrifol am eich diogelwch eich hun. Dywedwch wrth rywun i ble rydych yn mynd a phryd rydych yn debygol o ddychwelyd, a chofiwch fod â ffordd o alw am help pe baech yn mynd i drafferthion.
- Gall mynd i afonydd, llynnoedd, cronfeydd dŵr neu gamlesi fod yn beryglus, yn enwedig gyda'r nos. Gwnewch yn siŵr fod gennych esgidiau addas a thorsh.
- Gall yr amodau ar y dŵr newid yn gyflym. Cyn ichi adael y tŷ, gwrandewch/edrychwch ar ragolygon y tywydd a gochelwch rhag cael eich dal ar bonciau graean neu ynysoedd pe bai llif yr afon yn codi.
- Byddwch yn ofalus wrth daflu'r lein. Chwiliwch am beryglon, fel ceblau trydan neu bobl a all fod yn sefyll y tu ôl ichi. Byddwch yn ofalus wrth bysgota mewn tywydd gwyntog, oherwydd gall y gwynt chwythu'r bachyn i'ch wyneb.
- Efallai y bydd bacteria, firsau neu algâu gwenwynig i'w cael mewn ambell le. Os bydd golwg anniffr ar y dŵr, neu os bydd yn drevi, peidiwch â mynd i mewn iddo. Ond os byddwch yn mynd i mewn i ddŵr amheus yr olwg:
  - Gorchuddiwch friwiau a chrafiadau â phlasteri sy'n dal dŵr.
  - Peidiwch â llyncu unrhyw ddŵr, oherwydd mi allai gynnwys bacteria neu firsau.

- Gwisgwch esgidiau i'ch rhwystro rhag cael briwiau ar eich traed.
- Peidiwch â llyncu'r dŵr.
- Ar ôl mynd allan o'r dŵr, ymolchwch cyn gynted â phosibl, yn enwedig cyn bwyta.
- Pe baech yn arddangos unrhyw symptomau, cysylltwch â'ch meddyg a dywedwch wrtho/wrthi ble yn union y buoch.

Os gwelwch garthion mewn cwrs dŵr, ffoniwch linell gymorth Dŵr Cymru/Welsh Water ar 0800 085 3968. Neu ffoniwch 0800 80 70 60 os gwelwch lygredd neu drosedd arall yn ymwneud â bywyd gwylt. Ar gyfer materion nad ydynt yn rhai brys, ffoniwch yr heddlu ar 101.